





Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cyfrif Dysgu Personol Pecyn Cymorth Cyflogwyr

Lleihau bylchau sgiliau ac addysgu talent y dyfodol

Cysylltwch â Coleg Gwent i gael mwy o fanylion ar
01495 333777 neu ewch i'n gwefan coleggwent.ac.uk/pla



Cynnwys

- 3 Cyflwyniad Manteision i Gyflogwyr
- 4 Sut gall cyflogwyr gymryd rhan
- 4 Sut bydd yn gweithio
- 5 Cwestiynau a ofynnir yn aml

Y Cefndir

Mae Cyfri dysgu personol yn rhaglen beilot ddwy flynedd a lansiwyd ym mis Medi 2019 gan Lywodraeth Cymru. Fe'i hanelwyd at unigolion cyflogedig sy'n 19 mlwydd oed neu fwy sy'n ennill llai na £26,000 y flwyddyn. Bydd y fenter yn cynnig unigolion cymwys y cyfle i newid gyrfaeodd a chael y sgiliau a'r cymwysterau y mae cyflogwyr eu hangen yn y sectorau blaenoraeth, TG, Peirianeg ac adeiladwaith er mwyn llenwi'r bylchau sgiliau a geir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Cyfri dysgu personol yn rhoi cyfle i unigolion sy'n gymwys y cyfle i gael mynediad at gyrsiau am ddim, rhan-amser ac ennill y cymwysterau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyfleoedd gwaith yn y sectorau hyn. Mae'r cyrsiau ar gael mewn lleoliadau ac ar amseroedd cyfleus sy'n rhoi cyfle i gyfranogwyr gael dysgu am ddim a hyblyg a fydd yn gweddu i'w ffordd o fyw a'u hymrwymadau ar hyn o bryd.

Mae gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr yn golygu fod Coleg Gwent yn deall yr heriau y mae busnesau lleol a diwydiant yn eu hwynebu. Nid yn unig yr ydym yn darparu cyrsiau hyfforddi i ddiwallu eich anghenion ar ei hunion and rydym yn datblygu cwricwlwm y dyfodol i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau.





Buddion i gyflogwyr



Fel un o'r colegau sy'n perfformio orau yng Nghymru rydym yn ceisio sicrhau llwyddiant, ac yn sicrhau eich bod chithau hefyd. Mae gennym hanes o weithio gyda chyflogwyr a darparu canlyniadau.

Mae ein cyrsiau yn rhoi'r offer i gyflogwyr ac unigolion, yn rhanbarthau ehangach Gwent, gyda'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i helpu busnesau i ffynnu yn ein heconomi rhanbarthol deinamig.

Gall partneriaeth â Coleg Gwent ddod â buddion enfawr i'ch busnes. Byddwch hefyd yn helpu i lunio ein cwricwlwm, lleihau bylchau sgiliau, datblygu technolegol ac arfogi ein dysgwyr â'r sgiliau meddal sydd eu hangen i fod yn 'barod am waith'; darparu piblinell dalent yn y dyfodol i chi.



Sut gall cyflogwyr gymryd rhan?

Gall cyflogwyr gymryd rhan uniongyrchol yn y peilot Cyfri Dysgu Personol wrth gyd-weithio â Coleg Gwent yn y de, er mwyn eu helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth yn eu sefydliad.

Sut bydd yn gweithio?

Mae Coleg Gwent yn chwilio am gyflogwyr yn eu meysydd blaenoriaeth i helpu i ddatblygu'r cyrsiau, a chreu cnewyllyn o unigolion a chanddynt fynediad i'r rhaglen a'r offer yn llawn, y sgiliau a'r cymwysterau cywir i ddatblygu i gyflogaeth. Yn ddelfrydol, byddai cyflogwyr yn ymwneud yn llwyr gyda'r peilot ac yn ymrwymedig i helpu'r colegau i recriwtio unigolion a'u datblygu er mwyn eu paratoi ar gyfer cyflogaeth. Gallai hyn olygu cynnig y cyfle iddynt brofiad ymarferol yn y diwydiant, yn ystod eu cwrs. Hefyd, byddai'r cyflogwr maes o law yn ymrwymo i gynneg cyfweiliad i'r dysgwr ar ddiwedd y rhaglen, gyda golwg ar eu cyflogi, naill ar brawf neu ar sail barhaol.





Tudalen Cwestiynau a ofynnir yn aml



1. Pam ddylw'n i gymryd rhan?

Bwriad Cyfri Dysgu Personol yw helpu busnesau mewn sectorau blaenoriaeth, yn gyntaf ym maes peirianeg, TGaCh, gofal iechyd ac adeiladwaith i fynd i'r afael â phrinder sgiliau ledled eu sectorau. Os yw busnes yn gweithio yn uniongyrchol â Coleg Gwent sy'n cymryd rhan yn y fenter, gallant sicrhau bod gan unigolion sy'n gwneud y cwrs wedi'u harfogi â'r sgiliau priodol a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â'u bylchau sgiliau.

2. Sut gall busnesau gymryd rhan yn y prosiect?

Gall busnes weithio gyda Coleg Gwent er mwyn sicrhau bod y cyrsiau yn rhoi'r sgiliau a'r cymwysterau cywir i unigolion. Gall cyflogwyr gymryd rhan wrth gynnig cyfweiliad i'r dysgwyr ar ddiwedd eu hyfforddiant.

3. Sut gall busnesau gymryd rhan yn y peilot?

Yn syml, cysylltwch â Coleg Gwent a siaradwch â nhw. Byddant yn gallu eich cynghori ar sut gallwch gymryd rhan yn y fenter.

4. Sut mae'n gweithio?

Bydd yr unigolyn yn parhau yn eu cyflogaeth bresennol wrth gwblhau eu cwrs hyfforddi rhan-amser. Wedi i'r dysgwyr gwblhau eu cyrsiau, bydd ganddynt y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i newid gyrfaoedd a manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ym maes TGaCh, peirianeg, gofal iechyd neu'r sector adeiladwaith.



Cadwch lygad allan am hysbysebion PLA, fel y dangosir isod



AIL-LUNIWCH EICH GYRFA GYDA CHYFRIF DYSGU PERSONOL

Manteisiwch ar gyrsiau **HYBLYG** ac **AM DDIM** mewn **TGCh, Adeiladu, Peirianeg ac Iechyd a Gofal.**

Astudiwch o gwmpas ymrwymiadau teulu a gwaith, ac meithrin sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

I wneud cais, mae'n rhaid i chi:

- Fod mewn gwaith
- Yn ennill llai na £26,000 y flwyddyn
- Dros 19 oed
- Byw yn Nghymru

Coleg Gwent yw'r unig ddarparwr yn Ne Cymru i gynnig y cyrsiau hyn a ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru.

#NewidEichLlwybr

Ymgeisiwch Nawr:

www.colegwent.ac.uk/cdp

Neu ffoniwch ni ar: **01495 333777**

(Croesawn alwadau yn Cymraeg)

